

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Tachwedd 3ydd, 2016 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Trefor W Jones; Ifor Wyn Davies; Alwen Evans; Anwen Jones; Tegid Jones; Thomas Prys Jones; Elis Gwyn Jones; William Ifor Hughes; Naomi Jones; Aled Lloyd Evans a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.: Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry a Margaret Griffith.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Hydref 6ed, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Gwasanaethau Cyfreithiol; Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed rhif 67 yng Nghymuned Llanystumdwy) Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2016; Tir ger Tan y Buarth, Chwilog. Derbyniwyd er gwybodaeth.

2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Ynglŷn â Cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2016. Doedd dim gwybodaeth am bobl yn cysgu ar y stryd yn y gymuned hon.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif C16/1240/41/LL – Cais i godi ports/porth ar yr annedd presennol ynghyd a chodi modurdy gydag ystafell chwaraeon uwchben; Safle Hen Gapel Moriah, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.

2. Cais Rhif C16/1244/41/LL – Estyniad i'r dderbynfa; Ocean Heights Caravan Park, Pen y Bryn, Chwilog. Cefnogwyd.

3. Cais Rhif C16/1239/41/LL – Diwygiad i gais a wrthodwyd o dan C16/0407/41/LL ar gyfer creu safle carafanau teithiol newydd 17 uned, ail leoli 2 uned statig bresennol, codi block toiledau a gosod tanc septic a darparu llecynnau pasio; Swn y Don, Afonwen, Chwilog. Penderfynwyd gwrthwynebu oherwydd problemau gyda mynediad i'r safle.

4. Cais Rhif C16/1363/41/AM – Cais amlinellol ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 ty fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lon stad; Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi'r egwyddor gydag awgrym y gellid defnyddio'r darn gwaelod ger y ffordd fel man parcio oherwydd yr holl weithgareddau yn y Neuadd Goffa.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Rhoslan

Y ffordd heibio ceg lôn Tyddyn Gwyn am Ffatri. Gair gan y Cynghorydd Tegid Jones. Mae trafndiaeth sy'n dilyn sat nav yn cael ei anfon heibio ceg lôn Tyddyn Gwyn a Thyddyn Du am Ffatri a'r Afon Ddwyfach lle maent yn mynd i gaethgyfle er bod arwydd dim ffordd trwodd ym mhen lôn Tyddyn Gwyn. Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Reoleiddio/Trafndiaeth y Cyngor Sir i drafod y broblem.

Chwilog

Llwybrau ochr y ffordd allan o Chwilog am Afonwen, Llanarmon a'r Lôn Goed. Gair gan y Cynghorydd Aled Lloyd Evans. Ers tro mae cais gan gerddwyr i gael llwybrau ochr y ffordd allan o Chwilog achos mae'n beryglus i gerddwyr oherwydd prysurdeb y ffordd. Penderfynwyd anfon at Adran Reoleiddio/Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd i ofyn am eu sylwadau ac anfon copi at Reolwr Cefn Gwlad a Mynediad Cyngor Gwynedd.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

1. Llwybr Pont Merchaid. Bu trafodaeth bellach gyda swyddogion Cyngor Gwynedd; maent am orffen y gwaith barbio at Ffynnon Cybi a gosod arwyddion i ddangos union leoliad y llwybr. Derbyniwyd.

2. Yr hysbysfwrdd ger yr ysgol. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Elis Gwyn Jones gael golwg ar yr hysbysfwrdd o flaen Capel Pencaenewydd.

Llanystumdwy

8. Llwybr Clawdd Llanw o Bont Fechan i Ty'n Morfa. Yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, maent wedi cytuno i wneud y gwaith sydd angen ei wneud. Derbyniwyd.

9. Tir y Cyngor gyferbyn â rhes tai Maenywern yn Llanystumdwy. Penderfynwyd gofyn am brisiau i Mr Clifford Hughes, Atkin Groundworks Ltd. a Criccieth Cleaning Ltd. am farbio caled a chlirio o'r safle.

10. Meysydd Chwarae Cymru; arolwg o Gae Chwarae Troed y Garn, Llangybi. Gofynnwyd i'r Clerc lenwi'r holiadur.

11. Fferm solar Tyddyn Gwyn. Penderfynwyd derbyn ateb cwmni Lightsource ynghylch y defnydd o ffyrdd yn yr ardal.

12. Gwasanaeth iechyd tu allan i oriau. Llythyr yn cydnabod derbyn y gwyn ynghylch bod y gwasanaeth allan o oriau yn gorffen cyn i'r meddygfeydd agor eu llinellau ffôn yn y bore ac y byddent yn ymateb yn fuan. Penderfynwyd aros tan mis nesaf.

13. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, cynigion cychwynnol. Wedi anfon cyfeiriad y wefan atoch yn barod www.comffin-cymru.gov.uk. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr Tegid Jones, Thomas Prys Jones a Threfor W Jones gyfarfod i drafod y ddogfen ac i ffurfio ymateb. Daw'r cyfnod anfon sylwadau i ben ar Ragfyr 5ed, 2016.

14. Hyfforddiant Un Llais Cymru. Doedd neb awydd mynd ar hyfforddiant y tro yma.

15. Banc Bwyd Pwllheli; cais am gefnogaeth i'w cynlluniau a'r angen am y gwasanaethau yma yn yr ardal. Penderfynwyd anfon i gefnogi eu cais.

16. Grant Cist Gymunedol. Gair gan y Cynghorydd Aled Lloyd Evans. Derbyniwyd er gwybodaeth.

17. Gwasanaeth Cymraeg Scottish Power; gair gan y Cynghorydd Gwilym M Thomas. Ymddengys bod trethdalwyr sy'n dymuno cysylltu gyda'r gwasanaeth Cymraeg yn cael trafferthion i wneud hynny gyda'r galwadau yn cael eu hanfon i ganolfannau eraill, Warrington ran amlaf. Penderfynwyd anfon llythyr yn poeni ynghylch dyfodol y gwasanaeth Cymraeg ac anfon copi i Gomisiynydd y Gymraeg.

18. Arolwg o gyflwr meinciau'r Cyngor; mae dwy ar y llwybr ger y briffordd o Lanystumdwy am Gricieth, un ger mynedfa Stâd Cae Capel yn Chwilog, un yn y Cae Chwarae yn Llangybi. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Elis Gwyn Jones gael golwg ar gyflwr y meinciau ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Materion Ariannol.

19. Llythyr oddi wrth yr Archwilwyr Allanol BDO LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dweud na allant anfon anfoneb am eu gwaith ar hyn o bryd, eu bod mewn trafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru a'r darparrydd archwilio arall i sicrhau fod yr un dull o anfonebu'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru.

20. Gohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru ynghylch Archwiliadau Allanol BDO. Derbyniwyd y llythyr yn gofyn a gafwyd problemau gyda'r Archwilwyr Allanol. Bydd cyfarfod rhwng Un Llais Cymru gyda chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru i drafod cwynion gafwyd am y broses archwilio allanol a gynhaliwyd gan BDO. Adroddodd y Clerc y bydd yn mynd i gyfarfod tebyg alwyd gan y SLCC yng Nghaernarfon maes o law.

21. Adroddiad ariannol ar lafar. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled. Bydd y Cyngor wedi gorffen talu am y gwaith ar y llwybrau os y cymeradwyir rhif 25 ar y rhaglen waith. Heb dderbyn anfoneb am y gwaith ar Gae Chwarae Llanybi hyd yma.

22. Anfoneb angen ei dalu

Atkin Groundworks Ltd. am drwsio'r swing yng Nghae Chwarae Llanybi; £25- +TAW = £30-. Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

23. a. Lwfansau i Gynghorwyr Cymuned a Thref am 2017/18, wedi anfon y lincatoch, adran 13 sydd yn berthnasol. Derbyniwyd; nid oedd y Cynghorwyr yn dymuno gwneud sylwadau oedd angen eu hanfon erbyn Tachwedd 28ain.

b. Gair oddi wrth Clerc Cyngor Tref Pwllheli ynghylch hyn.

Roedd awgrym y dylid mabwysiadu yn union pa lwfansau yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Cyngor yn dystiolaeth ar gyfer yr Archwiliwr Allanol.

Penderfynwyd derbyn yr egwyddor o dalu lwfans costau defnyddio ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati; a thaliadau costau teithio a chynhaliaeth.

* Trwy ganiatâd yCadeirydd

24. Digwyddiad Call gyda'r Geiniog. Derbyniwyd er gwybodaeth.

25. Anfoneb Criccieth Cleaning Ltd.; ail doriad llwybrau Ynysgain Bach, Tŷ Newydd, Clawdd Llanw ac Afonwen, £262.50c + TAW = £315-. Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

